OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 No. 2436

# Rheoliadau Iechyd Meddwl (Cymeradwyo Personau i fod yn Weithwyr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy) (Cymru) 2008

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "AGCLl" ("*LSSA*") yw awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol yng Nghymru;

ystyr "AGCLl sy'n cymeradwyo" ("*approving LSSA*") yw'r AGCLl sydd wedi cymeradwyo'r person i fod yn GPIMC;

ac eithrio yng nghyd-destun rheoliad 3, mae "cymeradwyo" ("*approve*") a "cymeradwyaeth" ("*approval*") yn cynnwys "ail gymeradwyo" ("*re-approve*") ac "ail gymeradwyaeth" ("*re-approval*");

ystyr "cymwyseddau perthnasol" ("*relevant competencies*") yw'r sgiliau a nodir yn Atodlen 2;

mae i "Cyngor Gofal Cymru" yr ystyr a roddir i "*Care Council for Wales*" gan adran 54(1) o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**1**);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Iechyd Meddwl 1983;

ystyr "gofynion proffesiynol" ("*professional requirements*") yw'r gofynion a geir yn Atodlen 1;

ystyr "GPIMC" ("*AMHP*") yw gweithiwr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy.

(**1**) 2000 p.14.